

Cynllun gweithredol blynyddol

2020/21

Adnodd unigryw i Gymru, sy'n creu gwerth tymor hir yn economi Cymru. Gwellu economi ddeinamig, gystadleuol yng Nghymru.

Ein cenhadaeth

Datgloi potensial yn economi Cymru trwy gynyddu'r ddarpariaeth o gyllid cynaliadwy, effeithiol ar gyfer busnesau micro-i-ganolig

Ein gwerthoedd

Agored | Cyfrifol | Partneriaeth

Ein targedau pum mlynedd

20,000
o swyddi wedi'u creu neu eu diogelu

1:1.15
o fuddsoddiad i drosoledd sector breifat


£80m+
o fuddsoddiad blynyddol

1,400
o fusnesau'n cael eu cefnogi

£1bn
o effaith economaidd

Ein hamcanion strategol

- Hyrwyddo datblygiad economaidd trwy fodel cyflawni addasadwy sy'n ymatebol i anghenion y farchnad wrth ddarparu gwerth parhaus am arian cyhoeddus
- Dod yn sefydliad conglfaen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni offerynnau ariannol y sector cyhoeddus, cefnogi busnesau micro i ganolig yng Nghymru a chynyddu'r cyflenwad o gyllid
- Cyflawni amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru trwy gyflawni targedau perfformiad a darparu gwasanaethau rheoli buddsoddiadau a chymorth ar draws Llywodraeth Cymru gyfan



Oherwydd yr effaith ddigynsail a achoswyd gan bandemig Covid-19, mae'r cynllun gweithredol 20/21 hwn yn cael ei baratoi yng nghanol y flwyddyn. Mae hyn wedi caniatáu i'r effeithiau tymor byr a thymor canolig gael eu deall yn well yn ogystal â sicrhau bod ein hadnodd yn canolbwyntio'n llawn ar fesurau ymateb ar unwaith.

CYNNWYS

Trosolwg	04
Amcanion busnes Banc Datblygu Cymru – 2020/21	05
Cronfeydd	06
Gwasanaethau	07
Gweithrediadau	08
Pobl	09
Effaith	10
Ymchwil	13
Partneriaethau	14
Graddfa	15
Risg, llywodraethu, a chydymffurfio	16
Atodiad 1: Cyllideb 2020/21	17
Atodiad 2: Aliniad polisi Llywodraeth Cymru	18
Atodiad 3: Ein cronfeydd	19
Atodiad 4: FW Capital	20
Atodiad 5: Angylion Buddsoddi Cymru	21
Atodiad 6: Fframwaith llywodraethu risg	22
Atodiad 7: Trosolwg strategol Banc Datblygu Cymru	23

Cynhyrchwyd y Cynllun Gweithredol Blynyddol hwn yn unol â dogfen Fframwaith BDC ccc ac mae'n ystyried gofynion y Llythyr Cylch gwaith dyddiedig 2 Mehefin 2020.

TROSOLWG

Yn gynnar ym mis Mawrth 2020, aeth y DU i mewn i gyfnod clo a newidiodd yr amgylchedd busnes dros nos. I lawer o fusnesau, newidiodd strategaeth yn seiliedig ar dwf i un a oedd yn canolbwyntio ar oroesi. At hynny, ni ddarparodd yr ansicrwydd parhaus a ddaeth yn sgil cefndir o gyfyngiadau lleol, a rhai cenedlaethol posib, unrhyw ganlyniad clir yn y misoedd i ddod.

Mae rôl Banc Datblygu Cymru yn bwysicach nag erioed yn yr amseroedd hyn er mwyn darparu cefnogaeth ariannol barhaus ac ymatebol sy'n caniatáu i fusnesau Cymru barhau i ffynnu. Fel y dangoswyd ar ôl 2008, ar gyfer cyfnodau mor ansicr fel hyn y crewyd y Banc Datblygu er mwyn cynnig mynediad cyson a dibynadwy at gyllid i fusnesau Cymru er mwyn cefnogi eu huchelgeisiau i oroesi a thyfu.

I'r perwyl hwn rydym wedi llwyddo i gyflawni'r cyntaf o'r pecynnau ymateb pwrpasol arfaethedig i fusnesau o fewn tri mis cyntaf 2020/21. Yn ystod y cyfnod hwn roeddem yn gallu ailgyfeirio a symud ein cydweithwyr i gyflawni Cynllun Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru (CBBCC) gwerth cyfanswm o £92 miliwn o fuddsoddiad i 1334 o fusnesau o Gymru, gan ddiogelu dros 16,000 o swyddi. Ochr yn ochr â chyflawni'r ymateb uniongyrchol hwn i Covid-19, fe wnaethom hefyd barhau i gyflawni busnes fel arfer gan fuddsoddi £45 miliwn yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn.

Wrth i gynlluniau llywodraeth y DU fel Cynllun Benthyciad Ymyrryd ar Fusnes Covid-19 (CBYBC) a Chynllun Benthyciad Bowncio Nôl (CBBN) ddirwyn i ben yn Ch4, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i

archwilio ymhle y dylid dosbarthu'r wedd nesaf o gyllid er mwyn cael yr effaith fwyaf. Yr hyn sy'n holl bwysig, wrth lunio mesurau yn y dyfodol, yw rhoi ystyriaeth glir i weithredoedd darparwyr yr anghenion newydd yn deillio o effeithiau tymor hir Covid-19 ac ail don bosibl, yn ogystal ag ymateb llywodraeth y DU yn y dyfodol. Wrth ddatblygu cefnogaeth yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gydnabod bod gan bob busnes anghenion penodol ac amgylchiadau unigryw, boed hynny yn ôl sector neu faint, ac felly mae hyblygrwydd cynnig mewn marchnad sy'n esblygu yn hanfodol.

Mae lefelau'r ansicrwydd y mae busnesau yn eu hwynebu yn 2020/21 yn cael ei gymhlethu ymhellach gan ymadawiad y DU â'r UE ym mis Ionawr 2021. Gyda thrafodaethau masnach yn parhau a dim dealltwriaeth glir o'r amgylchedd ar ôl Brexit byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru er mwyn paratoi. I wneud hyn byddwn yn defnyddio mewnlwg o adroddiadau Dirnad Economi Cymru, rhanddeiliaid ac adborth o'n portffolio i ddylunio a darparu datrysiadau cynaliadwy.

I'r Banc Datblygu, mae'r ymadawiad o Ewrop yn dod â heriau ychwanegol. Yn absenoldeb cyllid strwythurol parhaus gan y Comisiwn, mae'n hanfodol bellach bod ffynonellau cyfalaf newydd yn cael eu nodi. Rydym wedi bod yn gweithio ers cryn amser gyda rhanddeiliaid allweddol i siapia'r angen a'r mecaneg ar gyfer cyflawni'r cyllid hwn i achos busnes diffiniedig ar gyfer datblygu.

Rydym yn cydnabod bod cyllid cyhoeddus yn adnodd prin a'n rôl ni yw gwneud y defnydd gorau

ohono mewn ymateb i fethiant uniongyrchol yn y farchnad, gan adeiladu ar ein hystod o atebion cyllido arloesol mewn meysydd fel tai, twristiaeth, ynni a thechnoleg gan ddefnyddio ystod o offerynnau ariannol o ficro-ddyled i ecwiti yn ystod camau diweddarach – sef buddsoddi gyda phwrpas cymdeithasol yn y pen draw. Yn 2020/21 bydd hyn yn cynnwys sefydlu ein rôl wrth ddarparu Modelau Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru.

Diolch i'r ymrwymïadau cyllido a wnaed gan Lywodraeth Cymru rydym ar hyn o bryd yn gweithredu 16 cronfa fyw sy'n cyflawni yn erbyn ystod eang o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn y pen draw yn cefnogi busnesau i ddechrau, cynnal a thyfu.

Yn gyfan gwbl, mae'r cyllid hwn yn darparu graddfa o dros £1 biliwn o gyfalaf buddsoddi, a fydd, o'i ystyried ochr yn ochr â mecanweithiau trosoled y sector breifat ac ailgylchu cyllid, yn sicrhau oddeutu £2.3 biliwn o effaith ar economi Cymru.

Wedi'i sbarduno gan arbenigedd ac ymroddiad tîm y Banc Datblygu, arweiniodd yr ymrwymïadau hyn at flwyddyn fuddsoddi orau arall yn 2019/20, gan sicrhau buddsoddiad o £103.2 miliwn mewn busnesau yng Nghymru. Yn y flwyddyn honno, gwnaethom gefnogi 397 o fusnesau a chynorthwyo i greu neu ddiogelu dros 4,000 o swyddi. Fodd bynnag, er mwyn cynnal y raddfa a'r effaith hon, yn enwedig gan na fydd cyllid yr UE bellach yn gonglfaen i'n cronfeydd mwy, mae creu model cyllido'r dyfodol gyda'n cyfranddaliwr bellach yn allweddol bwysig.

Mae'r cynllun Cymorth i Brynu – Cymru hefyd wedi cynnal darpariaeth gref gan arwain at ddyrannu cyllid newydd o £71 miliwn i'r cynllun cyfredol, gan fynd â chyfanswm cronfa Cymru ar draws y ddau gam i £523 miliwn. Mae cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer cam tri sydd i fod i redeg rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, gydag estyniad i fis Mawrth 2023 yn ddarostyngedig i argaeledd cyllid gan lywodraeth y DU.

Mae FW Capital, cangen rheoli cronfa awdurdodedig AYA y Grŵp hefyd wedi gweithredu'n gyflym i gefnogi busnesau mewn ymateb i'r digwyddiadau byd-eang diweddar. Yn gyntaf, trwy ddarparu adnodd mawr ei angen i gefnogi cyflwyno Cynllun Benthyciad Busnes

Covid-19 Cymru (CBBCC) yng Nghymru, ac yna gweithio gyda'i bartner Banc Busnes Prydain i ddod yn fenthyciwr CBYBC achrededig yng Ngogledd Lloegr.

Mae'r blaenoriaethau, y cyfeiriad strategol a'r cylch gwaith ar gyfer y Banc Datblygu wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019–22 ac maent wedi'u gosod yng nghyd-destun y Rhaglen Lywodraethu, Ffyniant i Bawb; y Strategaeth Genedlaethol, y Cynllun Gweithredu Economaidd, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn benodol, eleni byddwn yn edrych ar ffyrdd o wreiddio'r gwaith o hyrwyddo'r Contract Economaidd ymhellach yn ein prosesau buddsoddi.

Mae blwyddyn ariannol 2020/21 hefyd yn ymgorffori'r cyfnod cyn etholiadau Cymru 2021 a byddwn yn barod i fewnbynnu i ddatblygiad strategol polisi economaidd cyn ac ar ôl yr etholiad.

Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at newidiadau dwys i'n ffordd o fyw.

Yn ychwanegol at bob trasiedi bersonol pan gollir bywyd o ganlyniad i'r firws, mae llawer o unigolion a busnesau bellach yn wynebu dyfodol ansicr. O'r herwydd, byddwn yn parhau i chwarae rhan weithredol wrth gefnogi adferiad economaidd yn y tymor hir, gan hwyluso twf cynaliadwy yng Nghymru.

AMCANION BUSNES BANC DATBLYGU CYMRU - 2020/21

Cwsmeiriaid	Busnes mewnol
Darparu ar gyfer anghenion ein cwsmeriaid - Buddsoddi ym musnesau Cymru trwy gydol argyfwng Covid-19 - Gweithio gyda phartneriaid, sicrhau bod busnesau Cymru yn cael eu cefnogi wrth i'r DU adael yr UE - Sicrhau capasiti ar draws Cronfeydd bach y Banc Datblygu i gefnogi busnesau i ailsefydlu, masnachu a thyfu - Defnyddio Angylion Buddsoddi Cymru i annog cefnogaeth barhaus angylion yng Nghymru	Trwy ragoriaeth weithredol - Cerdyn sgorio marchnata i'w sefydlu er mwyn cwmpasu pob plattfform - Targedu a mesur cyflawniad y trawsnewid digidol - Cyflwyno arferion gweithio yn ddoeth ar draws Grŵp BDC - Datblygu a lansio strategaeth pobl Banc Datblygu Cymru
Ariannol	Twf sefydliadol
Darparu gwerth am arian a thryloywder - Cefnogi cyflawni prosiectau MBC Llywodraeth Cymru - Cwrdd â holl ofynion CLG Cymorth i Brynu – Cymru - Creu map ffordd datblygu cynnyrch ar gyfer 2020/24 fel cynllun llinell sylfaen tryloyw i lywio gofynion ffioedd, adnoddau ac ariannu. - Cytuno ar sail ffioedd / costau diwygiedig ar gyfer Banc Datblygu Cymru yng ngoleuni cronfeydd CBBCC ac ymyriadau eraill	Creu effaith sefydliadol - Sefydlu darpariaeth weithredol Hunanadeiladu Cymru - Parhau i ddatblygu menter sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio / gwyrdd (yn fewnol ac yn allanol) - Ymgorffori'r dull o reoli portffolio ar gyfer y cwsmeriaid newydd sy'n deillio o CBBCC - Darparu cynlluniau i'r Bwrdd ar gyfer strwythur sefydliadol i adlewyrchu twf mewn portffolio


Yn ystod y cyfnod hwn roeddem yn gallu ailgyfeirio a symud ein cydweithwyr i gyflawni £92 miliwn o fuddsoddiad i 1334 o fusnesau o Gymru, gan ddiogelu dros 16,000 o swyddi.

Trosolwg	Amcanion busnes BDC	Cronfeydd	Gwasanaethau	Gweithrediadau	Pobl	Effaith	Ymchwil	Partneriaethau	Grodffio	Llywodraethu a chydymffurfio	Atodiad
----------	---------------------	-----------	--------------	----------------	------	---------	---------	----------------	----------	------------------------------	---------

CRONFEYDD

Ers i Fanc Datblygu Cymru lansio yn 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo dros £500 miliwn o gronfeydd i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y farchnad gan greu effaith sylweddol ar ddatblygiad economaidd ledled Cymru. Fel sefydliad, rydym yn gweithredu rhaglen dreigl o ddatblygu cronfeydd i sicrhau hygyrchedd a pharhad ar gyfer busnesau cynhenid ar draws ystod o sectorau a chamau busnes – a gynigir ar hyn o bryd trwy 16 cronfa fyw. Yn ôl ei natur, dylai cyllid y sector gyhoeddus fod yn wrth-gylchol, gan ddarparu cyllid mawr ei angen pan fydd darparwyr marchnad eraill yn graddio 'nôl. Mae'r Banc Datblygu hefyd wedi profi ei allu i ymateb yn gyflym, ac fe ddangoswyd hynny gyda lansiad Cronfa Buddsoddi

Hyblyg Cymru yn dilyn refferendwm yr UE a sefydlu CBBCC (CWBLs) i gefnogi busnesau yn ein rhanbarthau yn y cyfnod cyn i'r sector bancio masnachol allu mabwysiadu Cynlluniau cefnogi Llywodraeth y DU. Mae'r Banc Datblygu bellach yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu cam nesaf y gefnogaeth, yn dilyn y disgwyliad y bydd CBYBC (CBILs) a CBBN (BBLs) yn dod i ben ar ddiwedd Ch4, yn ogystal â gorwel amser Brexit. Mae'n hanfodol bod llunio'r gefnogaeth hon yn y dyfodol yn ategu darpariaeth allanol yn y dyfodol, gan lywodraeth y DU a'r sector preifat, yn ogystal â chreu datrysiad tymor hir.



Datblygu cynnyrch ehangach

Byddwn hefyd yn cadw ffocws ar ei anghenion cynnyrch prif ffrwd – y gofyniad y mae'r perfformiad buddsoddi cryf 'busnes fel arfer' yn ei arddangos hyd yma.

Bydd hyn yn cynnwys:

Ailgyfalafu – Sicrhau bod Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru, Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru a Chronfa Busnes Cymru yn cael eu cyfalafu'n llawn i gyflawni eu hamcanion buddsoddi.

Mentrau newydd – datblygu atebion buddsoddi i gefnogi'r agenda datgarboneiddio a blaenoriaethau eraill y Llywodraeth.

Ffynonellau cyllido

Bydd y Banc Datblygu yn parhau i fod yn gyflawnwr allweddol Cyfalaf Trafodion Ariannol yng Nghymru, gan greu modelau ad-daladwy sy'n defnyddio'r ffynhonnell ariannu hon orau. Fodd bynnag, yn amodau cyfredol y farchnad lle mae pecynnau cymorth wedi'u hanelu at sector risg uwch, byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i nodi ffynonellau cyfalaf amgen a fydd yn caniatáu ar gyfer yr hyblygrwydd mwyaf fel rhan o'r cynnig.

GWASANAETHAU

Fel sefydliad gwasanaethau proffesiynol, rydym yn arbenigo mewn dyled ac ecwiti yn ogystal â darparu gwasanaethau ariannol ehangach. Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Banc Datblygu wedi sefydlu'n gadarn fel cangen gyflawni Llywodraethau Cymru ar gyfer offerynnau ariannol. Rydym wedi datblygu nid yn unig ein gwasanaethau rheoli cronfeydd dewisol i gefnogi nodau polisi'r llywodraeth, ond hefyd strwythurau gwasanaeth buddsoddi arloesol sy'n defnyddio arbenigedd a gallu'r sefydliad i greu modelau cynaliadwy sy'n cynnig gwerth am arian, fel Angylion Buddsoddi Cymru (gweler Atodiad 6) am fanylion pellach). Yn 2020/21 bydd datblygu gwasanaeth buddsoddi yn canolbwyntio ar y prosiectau canlynol:

Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Banc Datblygu wedi sefydlu'n gadarn fel cangen gyflawni Llywodraethau Cymru ar gyfer offerynnau ariannol.

Gwasanaethau Ynni

Yn 2020/21 rydym wedi ymrwymo i archwilio, cydgrynhoi a strwythuro strategaeth i gefnogi'r agenda datgarboneiddio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried prosiect peilot i gynorthwyo gydag amcanion ôl-ffitio domestig a gweithio gyda thîm Ynni Llywodraeth Cymru i adolygu blaen-gyflawni eu cynllun Ynni Sector Cyhoeddus.

Model Buddsoddi Cydfuddiannol

Yn 2020/21 byddwn yn parhau i gynnal gwasanaethau diwydrwydd a monitro mewn perthynas â buddsoddiad ecwiti cyhoeddus o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda: y tîm trafndiaeth i fonitro prosiect A465 yn rheolaidd wrth i'r cam adeiladu ddechrau; y tîm addysg wrth asesu buddsoddiad prosiect mewn hyd at bum cerbyd pwrpas arbennig ysgol (CPAau); y tîm iechyd wrth baratoi ar gyfer tendr ysbyty gofal canser Felindre.

Hunanadeiladu Cymru



Ers i'r cynllun ddod yn weithredol yn 2019/20 gohiriwyd lansiad mis Mawrth oherwydd Covid-19. Bydd hyn nawr yn cael ei ystyried yn ystod 2020/21 yn unol â chanllawiau cyffredinol y llywodraeth. Gyda'r wefan bellach yn fyw, bydd y cynllun yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar gwblhau'r buddsoddiadau cyntaf ac yn parhau i weithio gyda pherchnogion tir i ddatblygu'r cyfleoedd sydd ar gael i'r cwsmeriaid terfynol.

Cymorth i Brynu Cymru



Mae Cymorth i Brynu – Cymru yn parhau i gyflawni cyfradd fuddsoddi drawiadol gyda chyllid Cam II i fod i gau ar gyfer ceisiadau ym mis Mawrth 2021, gan arwain at £523 miliwn o gyllid wedi'i ddarparu ers 2014. Mae'r tîm bellach yn gweithio gyda'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru i ddiffinio a pharatoi ar gyfer cyflawni cam tri a fydd yn rhedeg rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.

GWEITHREDIADAU

Trawsnewid digidol

Bydd ein rhaglen trawsnewid digidol yn parhau trwy 2020/21, gan unioni a symleiddio prosesau, gan yrru mwy o effeithlonrwydd a gallu i gefnogi twf. Ym mis Chwefror 2020, gweithredwyd Microsoft Teams ar draws Grŵp BDC fel sail ar gyfer ein cyfathrebiadau. Roedd hyn yn caniatáu trosglwyddo'n ddi-dor i weithio gartref o fis Mawrth 2020 cyn y cyfnod clo cenedlaethol.

Yn 2020/21 mae pedwar prif faes ffocws ar gyfer y rhaglen waith hon – profi y Cynllun Parhad Busnes a gyflwynwyd ac fe ddangoswyd ei fod yn gadarn hyd yn hyn; Cymhwyso cwsmeriaid a datblygu portffolio – gweithio gyda darparwr allanol er mwyn gweithredu dull dylunio lle mae'r 'defnyddiwr yn ganolog'; mudo i ddefnyddio'r cwmwl – ar gyfer cynllunio a gweithredu; system weinyddu benthyciadau – caffael cyflenwr a gweithrediad.

Gweithio'n ddoeth

Yn 2020/21, bydd ein strategaeth o weithio ddoethach yn cael ei datblygu i adnewyddu dyluniad ein gweithle, gwella technoleg, creu diwylliant sy'n grymuso staff i wneud y penderfyniadau cywir ynghylch ble a phryd i weithio. Mae'r ffocws yn ymwneud â'r hyn rydyn ni'n ei wneud ac nid lle rydyn ni'n ei wneud, boed hynny yn y swyddfa, gartref, neu rywle yn y canol. Yn y pen draw, bydd y newid hwn mewn diwylliant yn cael ei ymgorffori fel sy'n briodol ar draws ein holl safleoedd gyda Chaerdydd, Billingham a Llanelli o dan adolygiad ar hyn o bryd.

ar weithgareddau tasg sy'n ymgorffori meysydd ar gyfer cydweithredu, ffocws, preifatrwydd a lles yn ogystal â desgiau traddodiadol a gofod ymneilltuo.

Mae'r ffocws yn ymwneud â'r hyn rydyn ni'n ei wneud ac nid lle rydyn ni'n ei wneud, boed hynny yn y swyddfa, gartref, neu rywle yn y canol.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein swyddfeydd yn cefnogi anghenion ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar yr amgylchedd craidd, gan gefnogi blaenoriaeth ailadeiladu ar ôl Covid-19 Llywodraeth Cymru o gael 'Cymru wyrddach' trwy sicrhau llai o lygredd a thagfeydd a hwyluso gweithio gartref fel y bo'n briodol.



Rheoli Prosiect a Newid

Bydd swyddogaeth benodol Banc Datblygu Cymru i reoli prosiect yn gweithio gyda'r holl reolwyr prosiect a rhaglen i sicrhau bod llywodraethu cryf yn rhan greiddiol. Bydd yn sicrhau bod budd yn cael ei wireddu, amser a chostau yn cael eu monitro'n agos ac fe ymgwymerir â darn penodol o waith i ystyried y ffordd orau o gyflawni rheoli newid yn niwylliant a hinsawdd Banc Datblygu Cymru er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i'r prosiect yn ogystal.

POBL

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gefnogi ein cydweithwyr i gyflawni amcanion y Grŵp trwy gydol argyfwng Covid-19, ond hefyd i yrru newidiadau a

flaen gynlluniwyd gan gynnwys lansio Strategaeth Pobl newydd, gwella ein polisïau a pharhau i recriwtio wrth i ni i gyd addasu i'r normal newydd.

Cefnogi ein cydweithwyr

Fel pob rhan o'r Banc Datblygu, symudodd ffocws Adnoddau Dynol ym mis Mawrth o ganlyniad i gyfnod clo Covid-19. Yr amcan uniongyrchol oedd cefnogi ein cydweithwyr wrth iddynt symud i weithio gartref ac mae hon wedi bod yn thema gyson ers yr adeg honno. Mae'r timau Adnoddau Dynol a chyfleusterau wedi gweithio'n agos iawn i sicrhau bod ein cydweithwyr yn cael cefnogaeth ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Rydym wedi gweithredu amryw fentrau gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i - weithio hyblyg gartref, cefnogi'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu, gwella ein cefnogaeth rheolwr llinell, cyfathrebu rheolaidd â chydweithwyr a chanolbwyntio mwy ar iechyd meddwl.

Diwylliant addasol

Dim ond am fod y tîm buddsoddiadau wedi gweithredu set symlach o brosesau a gyda chymorth gwirfoddolwyr o bob rhan o'r gweithrediad y gwnaed y gronfa CBBCC gwerth £92 miliwn yn bosibl. Gyda chymhlethdodau ychwanegol y busnes cyfan yn newid i weithio gartref, galluogodd y dull addasol hwn i'r Banc Datblygu ddarparu dros £136 miliwn i bron i 1,500 o fusnesau yn ystod chwe mis cyntaf 2020/21. Dangosodd hyn allu rhyfeddol ein cydweithwyr, nid yn unig i ddelio â'r symudiadau gweithredol sydyn, ond ar yr un pryd i weithio gyda'n gilydd i helpu busnesau Cymru mewn argyfwng.

Strategaeth pobl

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi ein pobl i sicrhau y cyflawnir amcanion y Grŵp. Mae ein cydweithwyr Adnoddau Dynol a marchnata wedi gweithio ar y cyd i greu brand cyflogwr 'Banc Datblygu Cymru', a fydd yn cael ei lansio trwy strategaeth bobl gynhwysfawr erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Defnyddir y strategaeth yn fewnol i gyfleu ein gwerthoedd a'n cynnig, ac yn allanol i gyfleu ein dull gweithredu fel cyflogwr a chynorthwyo recriwtio o ansawdd uchel.

Llwybrau gyrfa

Yn 2020/21 byddwn yn ymgorffori'r llwybrau gyrfa ymhellach ar draws y timau buddsoddi i ddarparu dull strwythuredig i gydweithwyr ennill profiad perthnasol a symud ymlaen gyda ni. Wrth wneud hynny, rydym wedi gallu cefnogi ein cydweithwyr i barhau i ddatblygu ar gyfer y cwmni, ar gyfer eu tîm, ond yn bwysicaf oll, drostynt eu hunain. Ar ôl i hyn gael ei ymgorffori, ein huchelgais yw cyflwyno llwybrau gyrfa yn ehangach ar draws y busnes.



Trosolwg	
Amcanion busnes BDC	
Cronfeydd	
Gwasonethau	
Gweithrediadau	
Pobl	
Effaith	
Ymchwil	
Partnerïoethau	
Graddfa	
Llywodraethu a chydymffurfio	
Atodiad	

EFFAITH

Yn 2020/21, byddwn yn parhau i greu effaith ar y farchnad yr ydym yn gweithredu ynddi yn amrywio o ymwybyddiaeth i godi cyfleoedd, i fywyd rheoli cyfrifon buddsoddi. Yn ogystal, rydym bellach yn datblygu'r gallu i alinio ein heffaith â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig fel

meincnod ar gyfer ein gweithrediadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, wrth wraidd ein bod yn cynhyrchu effaith y mae dangosyddion perfformiad allweddol buddsoddi, cefnogi trosoledd busnesau'r sector breifat a swyddi'n cael eu creu neu eu diogelu.

Trosolwg DPA 2020/21

Mae'r tabl isod yn dangos yr allbynnau a ragwelir ar draws ystod cynnyrch y Banc Datblygu ar gyfer 2020/21. Disgwylir i gyfanswm y buddsoddiad cyfun am y flwyddyn fod yn £177m, sy'n cymharu â £103.2m yn 2019/20.

Rydym yn gweld buddsoddiad cyffredinol hyd yma ar lefel debyg i'r llynedd, ond mae symudiad amlwg

yn y gymhareb rhwng eiddo a buddsoddiad dyled / ecwiti. Cynhyrchwyd allbynnau yn erbyn y targedau buddsoddi trwy edrych ar berfformiad hyd yma ym mhob un o'r cronfeydd, ar draws mathau o fargeinion, tystiolaeth o chwe mis cyntaf 2020/21 yn ogystal ag ystyriaeth ar gyfer amodau parhaus y farchnad.

	Budds (£m)	Budds (no.)	Busnes (no.)	Cyfanswm swyddi	Swyddi a grëwyd	Swyddi a ddiogelwyd	TSP (£m)
Economi a thrafnidiaeth							
Cronfa Benthyciad Micro-fusnes Cymru	3.5	171	171	305	146	159	1.4
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru	0.3	14	0	11	11	0	0.1
Cronfa Twf Cyfalaf Cymru	5	4	3	9	4	5	2
Cronfa Busnes Cymru	23.7	58	46	522	171	351	24.3
Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru	1	1	1	20	7	13	0.5
Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru	13.1	34	32	265	145	121	10
Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru	2	5	5	49	33	15	2
Cronfa Sbarduno Technoleg II	2.8	15	12	82	63	19	2.8
Cronfa Achub ac Ailstrwythuro	2.2	9	8	183	0	183	0.6
Cronfa Eiddo Masnachol Cymru	1.5	3	3	5	2	3	1.7
Cartrefi a lleoedd							
Cronfa Eiddo Cymru II	20.5	17	14	70	29	41	8
Cronfa Safleoedd Segur Cymru	9.4	8	6	32	13	19	3.6
Cyfanswm	85	339	301	1553	624	929	57
Canlyniad benthyciadau CBBCC	92	1335	1334	16,055	-	16,055	-
Cyfanswm blynyddol cyffredinol	177	1674	1635	17,608	624	16,984	57
Rhagolygon cyflawni heb ei dargedu							
Hunanadeiladu Cymru	1.5	Cronfa Ynni Lleol			1		
Cyd-fuddsoddiadau Angylion Cymru	0.25	Cronfa Dros Dro BMT			0.25		

Ffactorau allanol i'w hystyried yn 2020/21

Cynlluniau llywodraeth y DU – Mae sefyllfa unigryw'r Banc Datblygu yn y farchnad yn y gofod hwnnw lle mae'r sector preifat yn annhebygol o'i gefnogi, oni bai ei fod yn cael ei gymell gan gyd-fuddsoddi. Fodd bynnag, yn ei hymateb i effeithiau economaidd sylweddol Covid-19, mae cynlluniau llywodraeth y DU wedi cefnogi'r benthycwyr prif ffrwd i symud i'r gofod hwn, wedi'i warantu trwy gyfrwng arian

cyhoeddus. Mae'n anochel y bydd y cyllid o £1.4bn trwy'r cynlluniau hyn i fusnesau Cymru wedi cael sgil-effaith ar fusnesau a fyddai fel rheol yn cael eu cefnogi gan y Banc Datblygu. Yn bwysig, rhaid i'r Banc Datblygu annog blaenoriaethu'r cynlluniau hyn i sicrhau nad ydym yn disodli cyllidwyr eraill. Byddai Cronfa Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru wedi cael effaith debyg wrth i ni gyflawni'r gronfa bresennol.

Datblygu eiddo

Gyda benthycwyr prif ffrwd yn canolbwyntio ar eu portffolios prif ffrwd cynyddol, mae'r Banc Datblygu yn gweld llai o awydd i roi benthg yn y gofod datblygu eiddo. Mae hyn wedi arwain at biblinell sylweddol uwch o gyfleoedd datblygu eiddo hyfyw i'r banc.

Effaith barhaus ar fusnes

Wrth i'r mesurau cloi barhau i mewn i'r Gaeaf mae'r amgylchedd economaidd yn parhau i gael ei ansefydlogi gan arwain at atal strategaethau twf busnesau. Fel y gwelwyd wrth i'r gronfa CBBCC gael ei defnyddio'n gyflym, cyllid ymateb Covid-19 yw'r flaenoriaeth i lawer o fusnesau.

Cyflogaeth

Gyda llawer o fusnesau yn sicrhau twf ar gyfer goroesi, rydym yn gweld tystiolaeth o nifer llai o swyddi a oedd wedi'u cynllunio yn cael eu creu. Tra bo' swyddi'n cael eu diogelu, mae'r lefelau'n cael eu gostwng o ran amodau arferol y farchnad.

Codi ymwybyddiaeth

Mae buddsoddiad ecwiti yn gatalydd ar gyfer twf uchel a chynyddu graddfa busnes yn gyflym. Mae'n darparu offeryn allweddol i hybu economi Cymru yn y tymor hir a chreu busnesau o'r radd flaenaf sy'n cael effaith drawsnewidiol. Yn ogystal, mae cyfalaf olyniaeth yn galluogi'r genhedlaeth nesaf o berchnogion busnes ac yn helpu i warchod swyddi yn y rhanbarth.

Mae gan y Banc Datblygu ran i'w chwarae wrth ddangos y cyfle y mae ecwiti yn ei roi i berchnogion busnes a mentergarwyr ledled Cymru. I wneud hyn, bydd yn canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o ecwiti trwy strategaeth farchnata ecwiti bwrpasol dwy flynedd a gychwynnodd yn 2020/21.

Cyflawni rhanbarthol

Bydd y Banc Datblygu yn parhau i hyrwyddo model cyflawni gwirioneddol ledled Cymru gyda chymorth ei dimau rhanbarthol. Byddwn yn monitro effeithiau parhaus Covid-19 yn gyson fel cloeon lleol ac yn ymateb fel y gallwn i ddiwallu anghenion busnesau yn yr ardaloedd hyn trwy fecanweithiau fel gwyliu ad-dalu neu drwy gyfrwng cyllid ymatebol pwrpasol.

Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd â grwpiau rhanbarthol fel y bargeinion twf a grwpiau arweinyddiaeth ddinesig i ystyried prosiectau penodol.

Dull gweithredu portffolio

Mae'r Banc Datblygu wastad wedi cyflawni mwy na dim ond buddsoddi. Mae ein tîm portffolio ymroddedig yn gweithio gyda'n cwsmeriaid i ychwanegu gwerth i helpu busnesau i lwyddo.

O ganlyniad i CBBCC, mae ein llyfr portffolio wedi cynyddu 147% i dros 2,000 o gwmnïau gweithredol. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y busnesau hyn yn elwa o'n cynnig unigryw o gyswllt portffolio

pwrpasol ar adeg pan mae angen cefnogaeth fwyaf. Cyflawnir hyn trwy ailddyrannu cydweithwyr presennol i ffurfio haen newydd i'r strwythur portffolio, gan ddefnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael i'r cwsmeriaid hyn trwy Busnes Cymru, yn ogystal â gwneud y gorau o effeithlonrwydd prosesau digidol, gan elwa o'r buddsoddiad mewn trawsnewid digidol ar draws Grŵp BDC.

Trosolwg	
Amcanion busnes BDC	
Cronfeydd	
Gwasanethau	
Gweithrediadau	
Pobl	
Effaith	
Ymchwil	
Partneriaethau	
Graddfa	
Llywodraethu a chydymffurfio	
Atodiad	

Effaith yn ein cymunedau

Fel darparwr tymor hir benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i'r gymuned fusnes ficro i ganolog, credwn y gall busnesau bach a mentergarwyr sydd wedi'u gwreiddio yn y gymuned fod yn rhan o'r ateb i faterion lleol a byd-eang. Fel sefydliad ar gyfer Cymru gyfan mae'n rhaid i ni gael yr effaith

fwyaf posibl sy'n cynnwys ein gweithrediadau ni ein hunain. Yn 2020/21, rydym yn gwerthuso ein gweithrediadau busnes cyfrifol i gynyddu aliniad pellach â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac o ran ymestyn yr effaith y mae ein gweithrediadau yn ei chael ar ein cymunedau.

Cipio ein heffaith

Yn 2020, fe wnaethom adrodd ar y sampl gyntaf o'n fframwaith effaith ddiwygiedig, a adeiladwyd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i aliniad â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Roedd y fframwaith newydd hwn, fel y dangosir isod, yn ymestyn mesur effaith y tu hwnt i DPA megis swyddi a grëwyd neu a ddiogelir, TSP a nifer y busnesau

a gefnogir. Yn ystod 2020/21, byddwn yn adolygu strwythur y fframwaith i ystyried ffocws ein heffaith o dan bob thema. Wrth i'r fframwaith newydd hwn barhau i'w ail flwyddyn, bydd gwelliannau a ragwelir yn ansawdd data yn caniatáu adrodd ar fetrigau effaith pellach ar draws pob thema.



Ffyniant a Chyfle Byd-eang

Mae'r thema hon yn ein helpu i fesur sut mae ein cwsmeriaid a'n benthyciadau a'n buddsoddiadau yn effeithio ar dwf economaidd, a dosbarthiad y twf hwn, er mwyn cael Cymru fwy llewyrchus â diwylliant bywiog. O dan y thema hon yn 2020/21, byddwn yn:

- 1. Annog twf trwy allforio
- 2. Codi ymwybyddiaeth o fuddion buddsoddi mewn ecwiti



Datgarboneiddio a'r Amgylchedd

Mae angen gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a byddwn yn gweithio i gefnogi Cymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang. O dan y thema hon yn 2020/21, byddwn yn:

- 1. Cynnal ymchwil yn canolbwyntio ar ddull gweithredu BBaCh tuag at Ddatgarboneiddio
- 2. Datblygu mentrau newydd sy'n cyd-fynd â'r agenda datgarboneiddio
- 3. Nodi meysydd y gallwn wella ynddynt yn ein gweithrediadau



Cymunedau, Iechyd a Chynhwysiant Cymdeithasol

Rydym am wella cynhwysiant ariannol a gwneud buddsoddiadau sy'n mynd i'r afael â materion cymdeithasol, gan fesur ein heffaith ar greu Cymru fwy cyfartal ac iachach o gymunedau cydlynol. O dan y thema hon yn 2020/21, byddwn yn:

- 1. Cefnogi mentergarwyr benywaidd
- 2. Ystyried beth yw'r rhwystrau mentergarwch i bobl dan 25 oed
- 3. Gweithio gyda grwpiau cynrychioliadol o BAME



Arloesedd a Chynhwysiant Digidol

Bydd y metrigau o dan y thema hon yn ein helpu i fesur sut mae ein busnesau yn arloesi, yn addasu ac yn tyfu ar gyfer Cymru sy'n fwy cydnerth. O dan y thema hon yn 2020/21, byddwn yn:

- 1. Annog ein cwsmeriaid i wella eu heffeithlonrwydd a'u cyfleoedd ar gyfer arloesi trwy gynnig dau ddsbarth meistr ar 'Adeiladu Gwell Busnesau' trwy 1) Fuddsoddi mewn Arloesi a 2) Fuddsoddi yn eich Cynhyrchedd

YMCHWIL

Dirnad Economi Cymru

Sefydlwyd Dirnad Economi Cymru (DEC) gyda'r pwrpas o gyd-gasglu a dadansoddi data i greu mewnlwg annibynnol, cadarn a dibynadwy i helpu i ddeall a gwella economi Cymru. Mae'n hanfodol fod Dirnad Economi Cymru yn cyflawni ei rôl wrth i'r economi lywio drwy effaith y pandemig a'r adferiad. Er mwyn llwyddo i wneud hyn, bydd Adroddiadau chwarterol y dyfodol yn canolbwyntio ar yr hyn a ganlyn:

- Parhad – ymgorffori setiau data sy'n dod i'r amlwg i mewn i setiau data sefydledig fel ffynhonnell bwysig o ddata penodol i Gymru.
- Covid-19 – monitro effaith y pandemig ar economi Cymru a'r cyflenwad a'r galw am gyllid dros amser, gan gynnwys effaith ymyriadau i gefnogi'r adferiad.

Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales



- Brexit – i fonitro effaith Brexit ar economi Cymru a'r cyflenwad a'r galw am gyllid dros gyfnod o amser.


Yn ei drydedd flwyddyn weithredol, bydd Dirnad Economi Cymru yn addasu er mwyn rhoi mwy o sylw i adferiad wedi'r pandemig ac effaith Brexit a hynny trwy gyfrwng ei adroddiadau trefnedig a'i allu i adrodd yn bwrpasol, yn ogystal ag ystyried heriau datgarboneiddio a thwf cynhwysol. Fel rhan o flwyddyn 2020/21, comisiynir adolygiad allanol o strwythur, allbynnau, cyrhaeddiad ac effaith 'Dirnad Economi Cymru' i ystyried ffyrdd newydd o weithio a siâp cytundebau cydweithredu yn y dyfodol.

Dirniadaeth amser real

Mae allbynnau o'r adroddiad chwarterol diweddaraf gan Dirnad Economi Cymru wedi rhoi mewnlwg gwerthfawr i'r dirwedd benthycy busnesau a fydd yn helpu i arwain ein datblygiad cynnyrch yn 2020/21, mae hyn yn cynnwys:

- Nid oedd gan fwy nag un o bob pedwar cwmni yng Nghymru gronfeydd wrth gefn arian parod neu doedd ganddynt ddim ond llif arian am ddim ond tri mis yn weddill

- Cynyddodd cyfran y BBaCh yng Nghymru sy'n pryderu am eu gallu i ad-dalu o 18% i 30% rhwng Ch1 a Ch2 2020
- Ar hyn o bryd mae credyd ar gael yn haws nag yn ystod argyfwng economaidd 2008/9 oherwydd ymyriadau polisi fel CBYBC a Bownio Nôl
- Aeth cyfraddau twf blynyddol benthyciadau y DU i BBaCh o 1.1% ym mis Ebrill i 17.4% ym mis Mehefin



PARTNERIAETHAU

Byddwn yn parhau i weithio gyda llu o bartneriaid strategol yn y sector cyhoeddus a phreifat i ddylanwadu ar dwf economaidd tymor hir. Dangosir enghreifftiau o rai o'r meysydd cydweithredu allweddol ar gyfer 2020/21 isod.

Fel ein cyfranddaliwr, byddwn yn parhau i ddarparu atebion buddsoddi i gefnogi cyfeiriad polisi ar gyfer Cartrefi a Lleoedd a'r adrannau Economi a Thrafnidiaeth. Yn 2020/21 bydd y Banc Datblygu yn datblygu cysylltiadau agosach â'r timau Ynni a Datgarboneiddio i ystyried datrysiadau gwasanaeth buddsoddi yn ogystal â gweithredu mentrau newydd.



Mae Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn parhau i fod yn bartner strategol allweddol trwy Gronfa Busnes Cymru. Rydym wedi gweithio gyda WEFO ers dechrau'r flwyddyn i sicrhau cyllid newydd a chreu hyblygrwydd cyflenwi ychwanegol o fewn y gronfa i sicrhau y gall barhau i ddiwallu anghenion esblygol busnesau cynhenid.



Mae'r bartneriaeth barhaus yn parhau trwy gontractau cyflawni FW Capital yn ogystal â chyfathrebu rheolaidd ar gyfleoedd i gynyddu llif y buddsoddiad i Gymru.



Mae'r Banc Datblygu yn parhau i dargedu atgyfeiriadau at ac oddi wrth Busnes Cymru fel amcan allweddol. Yn ogystal, mae cynrychiolaeth ar Fwrdd Cyngori Busnes Cymru gan y Cyfarwyddwr Buddsoddi yn cryfhau y cyfle i gydweithredu'n barhaus ymhellach.



Partneriaethau eraill



Cronfa Bensiynau Clwyd



Atebion Busnes Landsker



Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru



Canolfan Cydweithredol Cymru



Prifysgol Caerdydd



Ffederasiwn Busnesau Bach


GRADDFA

Perfformiad yn erbyn amcanion pum mlynedd


Yn y lansiad, ymrwymodd y Banc Datblygu i lwyddo i gyrraedd targedau cyflawni uchelgeisiol i greu effaith sylweddol ar economi Cymru am y cyfnod

2017-2022. Dangosir cynnydd yn erbyn y pedwar maes craidd o fuddsoddiadau uniongyrchol, Trosoledd y Sector Preifat, nifer y buddsoddiadau a swyddi isod.


Buddsoddiad




Buddsoddiad sector breifat



Swyddi



Busnesau



Amgylchedd cyllido'r dyfodol

Trwy gydol hanes ein sefydliad, mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi chwarae rhan allweddol wrth gyflawni graddfa yn ein gallu i gyflawni buddsoddiadau. Mae'r cyllid hwn yn holl bwysig wrth greu cyllid gwaddol y gellir ei aildefnyddio i gefnogi busnesau am flynyddoedd i ddod. Er nad yw ein Cronfa UE gyfredol, Cronfa Busnes Cymru, i fod i fuddsoddi'n llwyr tan 2023 mae'n hanfodol bod y cynllunio ar gyfer ei olynydd yn dechrau nawr.

Mae'r Banc Datblygu wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i lunio'r gofyniad am gyllid newydd yn dilyn Brexit, gan gynnwys

ein cyfranddaliwr Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol 2020/21 a thu hwnt hyd nes y cytunir ar fodel cyllido cadarn, sy'n sicrhau gallu'r Banc Datblygu i effeithio ar ddatblygiad economaidd am flynyddoedd i ddod.

Er bod pwysigrwydd cyllid 'bytholwyrdd' yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae'r Banc Datblygu hefyd yn cynnig mecanwaith profedig wrth ddarparu Cyfalaf Trafodion Ariannol. Trwy gyfuniad o'r ffynonellau hyn y bydd y Banc Datblygu yn gallu parhau i ddiwallu anghenion busnesau Cymru a chreu amgylchedd lle gall busnesau ffynnu.

RISG, LLYWODRAETHU, A CHYDYMFFURFIO

Llywodraethu

Mae gan Grŵp Banc Datblygu Cymru systemau llywodraethu a rheoli risg cadarn sy'n sicrhau bod rheolaethau lliniaru yn cael eu monitro yn amlwg. Gallai rheoli risgiau yn wael, a methu â nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg yn amserol, effeithio'n andwyol ar berfformiad, enw da a hirhoedledd y Grŵp. Felly, mae'r Grŵp yn mabwysiadu proffil rheoli risg haenog fel y dangosir yn Atodiad 7. Mae Banc Datblygu Cymru yn fenthyciwr cyfrifol ac yn gwbl

ymwybodol o'i rwymedigaethau o ran cydymffurfiaid rheoliadol gan gynnwys Uwch Reolwr a Chyfundrefn Ardystio'r AYA. Byddwn yn parhau i gyflawni ein rwymedigaethau ar draws archwiliadau mewnol, allanol ac Ewropeaidd ynghyd â darparu hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i gydweithwyr ar draws yr holl anghenion cydymffurfio. Yn 2020/21, canolbwyntir ar y meysydd penodol a ganlyn.

Rheoli Risg Portffolio

Mae digwyddiadau byd-eang diweddar wedi ansefydlogi'r farchnad fuddsoddi yn enwedig y rhai a oedd yn canolbwyntio ar gefnogaeth i BBaCh. Rydym wedi adeiladu ein cynnig fel dull gweithredu ymarferol o bartneriaeth sy'n darparu nid yn unig cyllid ond hefyd rhyngweithiad dynol ymroddedig i gefnogi llwyddiant busnes. Rydym yn cydnabod yr anawsterau y bydd busnesau yn eu cael eu hunain wrth i effeithiau Covid-19 a Brexit ddatblygu ac felly rydym yn 2020/21 yn paratoi ein dull gweithredu risg buddsoddi yn y ffyrdd a ganlyn:

- Ymgysylltiad rhagweithiol rhwng timau monitro risg a phortffolio i sicrhau ymyrraeth a goruchwyliaeth gynnar
- Ymgysylltu'n llawn â'r prosiect trawsnewid digidol i nodi lle y gellir awtomeiddio datrysiadau cydymffurfio yn well
- Adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o gyflwyno CBBCC
- Adolygiad o'r dull gweithredu a meincnodi ar gyfer perfformiad iechyd portffolio

Offeryn Rheoli Risg

Yn 2020/21, bydd y Banc Datblygu yn archwilio'r buddion a'r opsiynau ar gyfer dod â phe cyn meddalwedd rheoli risg i mewn i gefnogi'r swyddogaeth hon wrth i ni barhau i dyfu ar gyflymder.

Amgylchedd ar ôl Brexit

Mae Banc Datblygu Cymru yn gweithredu o dan y fframwaith Cymorth Gwladwriaethol fel sylfaen ar gyfer ei baramedrau buddsoddi gweithredol. Wrth i drosglwyddiadau'r DU allan o Ewrop a goruchwyliaeth y rheoliad hwn drosglwyddo i'r Awdurdod Cystadlaethau a Marchnad, bydd goblygiad unrhyw newidiadau yn cael ei fonitro a'i weithredu'n ofalus trwy gydol rhan olaf 2020/21.

ATODIAD 1: CYLLIDEB 2020/21

Incwm a ragwelir	
Rhagolwg Cyfanswm Incwm	26,901,664
Costau a ragwelir	
Cyfanswm costau staffio a gweithredol	
Banc Datblygu Cymru ccc	(11,029,665)
Rheoli Cronfa Cymru	(9,253,341)
FW Capital	(3,511,184)
CiBC	(2,874,213)
Rhagolygon o gyfanswm y costau	(26,668,403)
Gwargedau	
Banc Datblygu Cymru ccc	(4,287,031)
Rheoli Cronfa Cymru	4,171,686
FW Capital	312,266
CiBC	36,340
Cyfanswm y gwargedau	233,261

Mae datblygiad parhaus y gronfa wedi arwain at gynnydd yn yr incwm a'r gost a ragwelir ar gyfer 2020/21. Mae hyn yn cynnwys cyflawni y Gronfa Hunanadeiladu Cymru newydd, ynghyd â chynnydd yng Nghronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru a Chronfa Micro Fenthyciadau Cymru ar ochr Cymru, a Chronfa Buddsoddi Pwerdy'r Gogledd (NPIF) ar ochr FW Capital. Mae galluedd recriwtio sylweddol wedi'i ymgorffori i gefnogi'r ehangiad hwn, ochr yn ochr â buddsoddiad sylweddol yn nyfodol y Banc Datblygu trwy ddatblygu seilwaith TG i weithredu systemau mwy diogel ar gwmwl a gwell profiad i gwsmeriaid digidol.

Mae model cronfa Cymorth i Brynu – Cymru wedi cael ei ddiwygio, gyda ffioedd bellach yn cael eu codi ar gyfradd unffurf yn hytrach na'u seilio ar gadw'r llog a enillir. O'i gyfuno gydag ychydig o newid yn y costau sylfaen, mae'r cynnydd hwn mewn incwm ffioedd wedi caniatáu Cymorth i Brynu – Cymru i dalu ei gostau a symud i sefyllfa waged gymedrol ar gyfer y flwyddyn.

Yn gyffredinol, rhagwelir gwarged o 1% ar gyfer 2020/21, a disgwylir arbedion cost yn y blynyddoedd i ddod wrth i fuddion effeithlonrwydd buddsoddi yn ein systemau lifo trwodd. Mae'r croniad hwn o gronfeydd wrth gefn yn hanfodol i alluogi Banc Datblygu Cymru

i gynnal y busnes yn ystod amrywiadau ffioedd yn y dyfodol, ac i barhau i ddatblygu gallu i ddiwallu anghenion rheoliadol a rhai sydd a wnelo cwsmeriaid.


Mae datblygiad parhaus y gronfa wedi arwain at gynnydd yn yr incwm a'r gost a ragwelir ar gyfer 2020/21.

Y grŵp o endidau sydd wedi'u cynnwys yn yr incwm a'r costau a ragwelir yw Banc Datblygu Cymru ccc, Angylion Buddsoddi Cymru Cyf, Dirnad Economi Cymru Cyf, Banc Datblygu Cymru FM Cyf a FW Capital. Nid yw'n cynnwys cyfrifon cwmnïau cronfa daliannol a neulltiwyd.

ATODIAD 2: ALINIAD POLISI LLYWODRAETH CYMRU

Crëwyd Banc Datblygu Cymru er mwyn cefnogi y gwaith o gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Ym mis Rhagfyr 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Ffyniant i bawb sy'n defnyddio nodau trosfwaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ganolbwyntio

ar ymyriadau sy'n ofynnol i arfogi pobl, busnesau a lleoedd â'r offer sydd eu hangen arnynt i siapia eu dyfodol eu hunain, ac yn ei dro ffyniant Cymru gyfan. Mae Banc Datblygu Cymru yn 2020/21 yn cefnogi meysydd allweddol y cynllun hwn yn y ffyrdd a ganlyn:



Mae Banc Datblygu Cymru yn buddsoddi er mwyn cael effaith. Ei bwrpas yw sbarduno datblygiad economaidd gyda buddsoddiad cynaliadwy sy'n cael effaith gadarnhaol trwy gynorthwyo i greu a diogelu swyddi, annog arloesi a gweithio ochr yn ochr â'r sector menter gymdeithasol.

ATODIAD 3: EIN CRONFEYDD

Ar hyn o bryd mae'r Banc Datblygu yn rheoli 16 o gronfeydd byw sy'n darparu buddsoddiad ar draws cylch bywyd busnes o gyllid sbarduno cam cynnar i arian cyllido olyniaeth a throï busnesau rownd. Yn ogystal, mae'r Banc Datblygu yn gweithredu'r cynllun

Cymorth i Brynu – Cymru gwerth £523 miliwn sy'n cefnogi unigolion i brynu cartrefi newydd ledled Cymru. Mae'r Banc Datblygu wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i greu cyfres o gynhyrchion sy'n diwallu anghenion y farchnad yn uniongyrchol.

Cronfeydd Banc Datblygu Cymru

£20m Cronfa Sbarduno Tech Cymru Cyllid ecwiti ar gyfer busnesau technoleg newydd	£180.9m Cronfa Busnes Cymru Ecwiti Cyffredinol a chyllid dyled	£18m Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru Cyllid ar gyfer prosiectau Twristiaeth strategol
£9.5m Cronfa Dros Dro BMT Buddsoddiad ecwiti ar gyfer busnesau technoleg	£40m Cronfa Safleoedd Segur Datgloi cyfleoedd datblygu eiddo	£25m Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru Ariannu cyfleoedd allbrynu
£25m Cronfa Achub ac Ailstrwythuro Cyllid gwyrddroi ar gyfer BBaCh	£8m Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru Cyd-fuddsoddi â syndicadau Angylion	£12.5m Cronfa Ynni Lleol Cefnogi prosiectau ynni cymunedol a datgarboneiddio
£30m Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru Cefnogi anghenion buddsoddi o dan £50k	£25m Cronfa Twf Cyfalaf Cymru Ariannu cyfalaf gweithio tymor byr	£32m Cronfa Datblygu Eiddo Cymru Cyllid eiddo preswyl
£55m Cronfa Eiddo Masnachol Cyllido datblygu gofod masnachol	£137m Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru Cyllid ecwiti a dyled gyffredinol	£523m Cymorth i Brynu – Cynllun Cymru Cefnogi perchentyaeth ledled Cymru
£92m Cynllun Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru Cyllid i ymateb i argyfwng	£40m Cronfa Hunan Adeiladu Cefnogi unigolion i adeiladu eu cartrefi pwrpasol eu hunain	



ATODIAD 4: FW CAPITAL

Trosolwg strategol

FW Capital (FWC) yw cangen Rheoli Cronfa gofrestredig AYA Grŵp Banc Datblygu Cymru. Ar hyn o bryd mae'n gweithredu o 6 swyddfa ledled Gogledd Lloegr gyda 32 aelod o staff, gan gynnwys 2 Gyfarwyddwr Cronfa pwrpasol sy'n

rheoli gweithrediadau yng Ngogledd Orllewin a Gogledd Ddwyrain Lloegr. Mae FWC yn rhan greiddiol o strategaeth Grŵp Banc Datblygu Cymru gan greu budd uniongyrchol i Gymru, megis:

Ariannol

Cynhyrchu refeniw y gellir ei ddychwelyd i Gymru er budd busnesau Cymru.

Arbenigedd

Ehangu cwrmpas gweithgaredd buddsoddi'r Grŵp ac felly cynyddu'r sylfaen wybodaeth ar draws y sefydliad.

Codi Arian

Llwyddo i sicrhau a chyflawni contractau ar ran trydydd partion, gan gynnwys Banc Busnes Prydain.

Blaenoriaethau 2020/21

Yn 2019/20 llwyddodd FWC i sicrhau dyraniad ychwanegol o £40.6 miliwn, ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd ("CBPG"), gan ddod â chyfanswm y Gronfa i £142.6 miliwn. Yn ystod 2020/21, yn dilyn effaith Covid-19, cyflawnodd FWC achrediad i gyflawni CBYBC ar gyfer CBPG gyda therfyn benthyca o £40 miliwn i gyd. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw estyniad neu ddiweddariad i'r cynllun yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd ar 30/11/2020. Bydd FWC yn parhau i flaenoriaethu defnyddio CBPG (NPIF) yn llwyddiannus; Mae BBB yn llunio cynnig ar gyfer CBPC2 ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn bartner

allweddol sydd â hanes cryf o gyflawni ein bod mewn sefyllfa dda yn yr ymarfer caffael sydd ar ddod.

Oherwydd galw cynyddol am Gronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain yn ystod y chwech mis diwethaf, mae cais yn cael ei wneud i'r buddsoddwyr yn y Gronfa (NELEP a Santander) i ymestyn tymor y Gronfa am 3 blynedd ac ymrwymo cronfeydd pellach (£10 miliwn) sy'n mynd a'r Gronfa i £20 miliwn. Yn 2020/21 bydd FWC yn blaenoriaethu codi arian ac yn datblygu Memorandwm Buddsoddi ar gyfer Cronfa Olyniaeth Rheoli yn Lloegr i'w lansio yn gynnar yn 2021/22.

Allbynnau targed 2020/21

Cronfeydd	Targed
CBPG – TVC a NW	£8.4m
Cronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain	£6m
Cronfa Catalydd Tees Valley	£2m



ATODIAD 5: ANGYLION BUDDSODDI CYMRU

Trosolwg Strategol

Mae'r blaen-strategaeth ar gyfer Angylion Buddsoddi Cymru 2020/21 yn cael ei gyrru gan y cynlluniau i ehangu ymgysylltiad, cynnal llif bargeinion a gwella hunaniaeth brand sydd eisoes wedi'i sefydlu'n weddol dda. Mae'r rhaglen Angylion Buddsoddi Cymru yn parhau gyda dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar fuddsoddwyr, gan geisio parhau i ehangu a datblygu nifer y buddsoddwyr angel 'tro cyntaf', tra'n sicrhau bod buddsoddwyr profiadol yng Nghymru a'r DU yn ymwybodol o'r rhagolygon 'parod ar gyfer buddsoddwyr' o ansawdd da, busnes sy'n dechrau o'r newydd, mentergarwyr sydd ar gael yng Nghymru trwy'r platfform Angylion Buddsoddi Cymru. Dylid nodi fod 'buddsoddwyr arweiniol' profiadol ychwanegol ar gyfer Cronfa Gyd-fuddsoddi Angylion Cymru wedi cael effaith bendant ar dwf syndicetau angel ac yn y pen draw bargeinion angel hefyd.

Cronfa Gyd-fuddsoddi Angylion

Lansiwyd y Gronfa Cyd-fuddsoddi Angylion (CCA) gan Ysgrifennydd yr Economi a Thrafnidiaeth yn 2018 ac ar hyn o bryd mae 8 o 'brif fuddsoddwyr' cofrestredig wedi'u cymeradwyo i gyflwyno cyfleoedd buddsoddi ar gyfer cyllid cyfatebol. Y flaenoriaeth yn 2020/21 yw nodi a chymeradwyo carfan estynedig o fuddsoddwyr arweiniol profiadol i gefnogi twf llif bargaen y gronfa a buddsoddiad angylion yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

Dangosyddion perfformiad allweddol 2020/21

Dangosyddion perfformiad	Targed
Buddsoddiadau a hwyluswyd	£2.5m / 25 o fargeinion angylion
Buddsoddwyr newydd wedi'u cofrestru	40 newydd
Prif fuddsoddwyr CCA	6 newydd

Blaenoriaethau penodol eleni;

Newydd ddyfodiaid

Annog newydd-ddyfodiaid i'r sector buddsoddi angylion yng Nghymru – sicrhau'r llif bargaen fwyaf o fuddsoddiad angylion yng Nghymru.

Arferion gorau

Meithrin buddsoddwyr angylion profiadol a chynghori ar faterion buddsoddi sylweddol trwy raglen o gefnogaeth datblygu arfer gorau.


Syndiceiddiad

Hyrwyddo ac annog ffurfio syndicetau buddsoddi – nodi ac ymgysylltu â buddsoddwyr 'arweiniol' newydd i ehangu gweithgaredd a gefnogir gan Cronfa Gyd-fuddsoddi Angylion Cymru.

Cydweithrediad

Cynyddu cydweithredu â phartneriaid cyllid strategol/ecwiti ledled y DU ar brosiectau dethol. Cynnal cydweithredu allanol a chwarae rhan weithredol ac effeithiol wrth gefnogi pob rhanddeiliad busnes ac ecosystem datblygu economaidd Cymru.

ATODIAD 6: FFRAMWAITH LLYWODRAETHU RISG



ATODIAD 7: BANC DATBLYGU CYMRU - TROSOLWG STRATEGOL

Ariannol

Cynaliadwyedd ariannol tymor hir ar gyfer effaith economaidd barhaus

Tryloyw ac atebol

Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?

Gwneud y gorau o werth am arian	Strategaeth rheoli gwaddol	Strategaeth cost a reffeniw
---------------------------------	----------------------------	-----------------------------

Cwsmer

Budd ehangach	Ariannu	Ymwybyddiaeth
Trosoli buddsoddiad sector breifat Cyflawni DPA rhanddeiliaid	Cynhyrchion ymatebol sy'n canolbwyntio ar y farchnad Datrysiadau hyblyg i gwsmeriaid	Cynnig brand a gwerth Sefydliad marchnad-arweiniol

Sut fyddwn ni'n ei gyflawni?

Busnes mewnol

Gweithredol	Arloesedd	Llywodraethu a pholisi
Rhagoriaeth weithredol barhaus Graddadwyedd Cynhyrchedd	Datblygu cynnyrch yn barhaus Cyflawni gwasanaeth buddsoddi LIC Llais y gweithiwr	Safonau llywodraethu sy'n arwain y farchnad Aliniad llawn â Pholisi LIC Presenoldeb Cymru-Gyfan

Sut fyddwn ni'n ei gyflawni?

Twf sefyliadol

Technoleg	Pobl	Diwylliant
Buddsoddi mewn effeithlonrwydd systemau drwy awtomeiddio Datblygu mwy o gynhyrchiant trwy brosesau	Datblygu a gwella doniau Brand cyflogaeth cryf Pecynnau cystadleuol	Canolbwyntio ar gwsmeriaid Datrysiadau hyblyg Sefydliad arweiniol

Sut fyddwn ni'n ei gyflawni?



bancdatblygu.cymru
developmentbank.wales

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys llythrennau cychwynnol yr enw BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo yn gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru (Banc Datblygu Cymru ccc) dri is-gwmni sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwer nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn dyddodion gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.

